

ffilm CYMRU WALES

# AELODAU'R BWRDD

## PECYN RECRIWTIO

## Croeso / Welcome

Fel Cadeirydd Ffilm Cymru, rwy'n falch o'ch gwahodd i ymuno â sefydliad sydd yn dathlu creadigrwydd, cynhwysiant ac arloesedd fel gwerthoedd craidd mewn gweledigaeth i ddatblygu sector ffilm modern a ffyniannus yng Nghymru.

Ein cenhadaeth fel sefydliad yw cynorthwyo i straeon gael eu hadrodd mewn ffordd feiddgar - gan feithrin talent sy'n dod i'r amlwg a thalent sydd eisoes wedi ennill ei blwyf mewn ffordd sy'n sicrhau bod manteision diwylliant ffilm ffyniannus yn cael eu teimlo ar draws ein holl gymunedau.

Rydyn ni'n dechrau ar gyfnod cyffrous o newid a thrawsnewid creadigol lle mae'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r diwydiant ffilm yn galw am arweinyddiaeth feddylgar, safbwyntiau ffres ac ymrwymiad cyffredin i gynaliadwyedd diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor. Dyna pam rydym yn ceisio cryfhau ein Bwrdd drwy ddenu aelodau newydd a all ddod â dealltwriaeth, profiadau ac arbenigedd amrywiol i helpu i arwain ein gwaith.

Drwy ymuno â'n Bwrdd, bydd gennych y cyfle i lunio dyfodol y byd ffilm yng Nghymru, cefnogi talent sy'n dod i'r amlwg a helpu i sicrhau bod crefft adrodd straeon yn bwerus yn parhau i ffynnu ar draws pob rhan o'r wlad.



Rydyn ni'n eich gwahodd i ddysgu mwy am Ffilm Cymru, ac ystyried chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol adrodd straeon yng Nghymru.

Ymunwch â ni i gyflawni'r weledigaeth.

**Amanda Rees**
Cadeirydd, Ffilm Cymru Wales

ffilm CYMRU WALES

**Diolch am eich diddordeb mewn bod yn Aelod o Fwrdd Ffilm Cymru Wales.**

Mae hon yn adeg gyffrous ar ein taith. Wrth i ni edrych at ddyfodol byd ffilm yng Nghymru, rydym yn gwahodd unigolion sy'n credu ym mhŵer straeon i wneud gwahaniaeth, i ymuno â ni.

Mae Ffilm Cymru Wales wedi bod yn gweithio i dyfu sector ffilm tecach, gwyrddach a mwy cynhwysol ers 2006. Ochr yn ochr â'n partneriaid a'r gwneuthurwyr ffilmiau gwych rydyn ni'n eu cefnogi, rydyn ni wedi gweld y dirwedd ffilm yng Nghymru yn ffynnu. Rydyn ni wedi cefnogi lleisiau newydd, wedi meithrin talent o'n gwlad ein hunain, ac wedi dod â sylw i straeon sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth bywyd yng Nghymru. Rydyn ni wedi ei gwneud yn ddyletswydd arnom ddeall yr heriau a'r cyfleoedd creadigol sydd o'n blaenau, gan lunio strategaethau i helpu'r sector i ffynnu drwy'r cyfnod cyffrous a newidiol hwn.

Rydyn ni nawr yn chwilio am Aelodau Bwrdd newydd i helpu i lunio cam nesaf ein gwaith. Nid oes angen i chi ddod o'r diwydiant ffilm - rydyn ni'n awyddus i glywed gan bobl sydd â gwahanol sgiliau, profiadau bywyd a safbwyntiau. Yr hyn sydd bwysicaf yw eich ymrwymiad i adeiladu diwylliant ffilm yng Nghymru sy'n uchelgeisiol, yn hygyrch, ac yn cynrychioli pawb sy'n galw'r lle hwn yn gartref.

Os yw hyn yn berthnasol i chi, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.



ffilm CYMRU WALES

# Y Stori Hyd Yma

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i hybu sector a diwylliant ffilm sy'n gweithio i bawb ledled Cymru. Rydyn ni'n gweithredu fel Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC), gan dderbyn cyllid fel dirprwy i Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n ein galluogi i gynorthwyo gwneuthurwyr ffilmiau ac arddangoswyr ledled Cymru. Rydyn ni hefyd yn derbyn arian y Loteri Genedlaethol gan Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) i redeg Rhwydwaith BFI Cymru sy'n cefnogi gwneuthurwyr ffilmiau newydd.

Ers 2022 rydyn ni wedi darparu cronfa cynhyrchu ffilmiau Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth hon wedi ennyn mwy o ddiddordeb a chyllid ar gyfer ffilmiau yng Nghymru yn ogystal â chyfleoedd fel rhaglen Sinema Cymru, cydweithrediad cyffrous rhwng Ffilm Cymru Wales, Cymru Greadigol ac S4C sydd â'r nod o ddatblygu ffilmiau nodwedd Cymraeg eu hiaith.

Rydyn ni hefyd yn arloesol ac yn flaengar yn ein cydweithrediadau. Mae ein gwaith gyda Media Cymru (Strength in Places, Ymchwil ac Arloesi yn y DU) wedi arwain at lansio Cymru Werdd, rhaglen waith sydd, drwy ymchwil, hyfforddiant a chyllid Ymchwil a Datblygu, yn mynd ati i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol a chwmnïau'r sector sgrin yng Nghymru i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050.



Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i feithrin y bobl sy'n pweru ein sector sgrin. Mae ein gwaith ar dalent a sgiliau yn cynorthwyo unigolion ar bob cam o'u taith. Drwy hyfforddiant wedi'i deilwra, datblygiad creadigol, a phartneriaethau â diwydiant, rydyn ni'n helpu i adeiladu gweithlu mwy cynhwysol a chynaliadwy. Boed yn gosod hyfforddeion ar y set, cynorthwyo gwneuthurwyr ffilmiau sy'n dod i'r amlwg, neu agor y drws i'r rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant, ein ffocws yw sicrhau bod gan bawb y cyfle i gymryd rhan a ffynnu.

## Yr Hyn Rydyn Ni'n Chwilio Amdano

Mae gennym Fwrdd brwdfrydig ac ymrwymedig sydd i gyd yn cynnig dealltwriaeth werthfawr o'u profiad proffesiynol a'u profiad bywyd. Rydyn ni am barhau i ehangu'r safbwyntiau hynny a herio sut rydyn ni'n meddwl ac yn gweithredu. Os oes gennych ddiddordeb mewn rhannu eich profiad a'ch safbwyntiau, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Os yw ymuno â'n bwrdd yn apelio atoch chi, rhowch wybod i ni, beth bynnag fo'ch rôl neu daith broffesiynol. Byddem hefyd yn awyddus i glywed gan ddarpar ymgeiswyr a allai gymryd lle profiad aelodau presennol sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod fel aelodau'r Bwrdd yn y meysydd canlynol:

- Rheoli Cyllid
- Perthnasoedd â Rhanddeiliaid
- Llywodraethu
- Cynhyrchu Ffilmiau
- Materion Cyfreithiol a Busnes

Er ein bod wedi tynnu sylw at rai meysydd allweddol sydd o ddiddordeb arbennig i ni, rydyn ni'n gwybod nad oes gennym yr holl atebion, ac nid ydym am golli'r cyfle i ddod i gyswllt â rhywun gwych. Os yw'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn apelio atoch chi, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.



Os hoffech gysylltu i drafod y rôl hon, anfonwch e-bost ataf: enquiries@ffilmcymruwales.com

Edrychwn ymlaen at glywed gennych,

**Lee J. Walters**
Prif Weithredwr, Ffilm Cymru Wales

# Y Rôl

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethiant Ffilm Cymru Wales, gan oruchwylio esblygiad y cwmni a datblygiad ehangach ein polisïau a'n strategaethau i gefnogi'r sector.

Yn benodol, bydd yr aelodau'n:

- Rhannu eu syniadau a'u profiad i lunio, cymeradwyo ac ailadrodd cynlluniau a pholisïau strategol Ffilm Cymru Wales wedi'u llywio gan yr Uwch Dîm Rheoli.
- Fel rhan o'r Bwrdd cyfunol, darparu llywodraethiant ariannol a strategol, gan adolygu a chymeradwyo'r blaenoriaethau strategol blynyddol, y cynlluniau, y gyllideb, y cyfrifon rheoli chwarterol a'r Cyfrifon Statudol blynyddol.
- Sicrhau bod y sefydliad yn cael ei lywodraethu'n effeithiol yn unol â statws CIC.
- Gwneud penderfyniadau ariannu ar y cyd mewn ymateb i argymhellion ar lefel Weithredol.
- Bod yn Llysgennad i Ffilm Cymru Wales.
- Hyrwyddo ymrwymiad Ffilm Cymru Wales i gynhwysiant fel cwmni ac ar draws y sector.
- Cynorthwyo gwaith Ffilm Cymru Wales tuag at fod yn sefydliad amgylcheddol gyfrifol.
- Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm i gyflawni nodau, amcanion a gweledigaeth Ffilm Cymru Wales.



ffilm CYMRU WALES

# Sgiliau, Galluoedd a Rhinweddau Personol

### Meini Prawf Hanfodol

- Profiad o Lywodraethu a gweithio fel rhan o Fwrdd Cyfarwyddwyr neu gyda nhw.
- Diddordeb brwd mewn datblygu manteision cymdeithasol, diwylliannol, addysgol a/neu economaidd byd ffilm ledled Cymru i'r dyfodol.
- Dealltwriaeth o sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus a'u rhwymedigaethau rheoleiddiol.
- Profiad o gymeradwyo neu weithio gyda chyllidebau a dogfennau strategol.
- Sgiliau rhwydweithio a dylanwadu, ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar lefel uwch.
- Ymrwymiad i ddatblygu sector cynhwysol sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu ein cymdeithas yn llawn.
- Wedi ymrwymo i gefnogi sector ffilm dwyieithog.
- Gwerthfawrogiad o'r atebolrwydd a'r cyfrifoldebau angenrheidiol sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus.

### Meini Prawf Dymunol

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Eirioli dros y diwydiant ffilm neu ddiwydiant creadigol cysylltiedig gan gynnwys ar lefel y llywodraeth.
- Dealltwriaeth ac arbenigedd yn y sector ffilm, a dealltwriaeth o dirwedd ehangach y diwydiannau celfyddydol a chreadigol yng Nghymru.



ffilm CYMRU WALES

## Penodiadau

Gwneir penodiadau am dymor o 3 blynedd, a gall pob aelod wasanaethu am ddau dymor olynol. Mae tâl cydnabyddiaeth dewisol ar gael i bob Aelod o'r Bwrdd a bydd Ffilm Cymru Wales hefyd yn talu unrhyw dreuliau a gwyd wrth gyflawni dyletswyddau.

Mae disgwyl i'r aelodau gymryd rhan weithredol yn Ffilm Cymru Wales – boed yn mynychu dangosiadau, yn gwneud cyflwyniadau ac yn eirioli ar ran y cwmni, neu'n paratoi at gyfarfodydd a/neu ddigwyddiadau a'u mynychu.

Bob blwyddyn, cynhelir pedwar cyfarfod Bwrdd chwarterol, hanner diwrnod o hyd, sy'n digwydd ar hyn o bryd trwy gymysgedd o opsiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Yn ogystal â chyfarfodydd chwarterol, bydd yr Aelodau'n eistedd ar un o ddau is-fwrdd i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ar lefel Weithredol a darparu argymhellion i'r Bwrdd llawn.

## Amrywiaeth

Rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i wella amrywiaeth ein Bwrdd ac rydyn ni'n benodol yn annog ceisiadau sy'n ehangu cynrychiolaeth, safbwyntiau a phrofiad bywyd ymhellach.



ffilm CYMRU WALES

## Gofynion Mynediad

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb, ac rydyn ni'n angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin. Byddwn yn cynnig sicrwydd o gyfweliad i unrhyw ymgeisydd sy'n bodloni ein meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl ac sy'n arddel hunaniaeth pobl y mwyafrif byd-eang, pobl Dduon, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, neu bobl F/byddar, trwm eu clyw, anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/byddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn Niwroamrywiol, sydd â cholled golwg neu glyw neu sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol nad ydynt yn ei gysylltu â'r derminoleg hon, mae cymorth ar gael i lenwi'r cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch â Hayley@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.



ffilm CYMRU WALES

## Ceisiadau

Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon copi o'ch CV drwy e-bost ynghyd â llythyr eglurhaol, yn dweud pryd rydych ar gael a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y fanyleb hon.

Dylid anfon ceisiadau at sylw ein Cadeirydd, Amanda Rees, trwy law Hayley@ffilmcymruwales.com

Neu drwy'r post i:
Hayley Lau
Ffilm Cymru Wales
W2, Tŷ Wellington
Stryd Wellington
Caerdydd, CF11 9BE

Os hoffech drafod y rôl ymlaen llaw, anfonwch eich ymholiad at ein Prif Weithredwr, Lee Walters, enquiries@ffilmcymruwales.com

Nid yw Ffilm Cymru Wales yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.

**Gwnewch gais erbyn hanner dydd ddydd Gwener 27ain Mehefin 2025.**



Caiff cyfweliadau eu cynnal yn yr wythnos sy'n dechrau dydd Llun 14eg Gorffennaf 2025.

## Ar ôl i Chi Wneud Cais

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno a chewch ddolen i ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn 'gwell gen i beidio â dweud'.

I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru Wales yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Cewch glywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad cam cyntaf o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

## Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a phroffesiynol a allai wrthdaro, neu y gellir ystyried eu bod yn gwrthdaro, â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a rolau o awdurdod y tu allan i rôl Ffilm Cymru Wales. Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei archwilio yn y cyfweliad.

Os cewch eich penodi, efallai y bydd gofyn i chi ddatgan y buddiannau hyn yn flynyddol ac, os oes angen, mewn cyfarfodydd bwrdd yn y dyfodol.



ffilm CYMRU WALES



**FFILM CYMRU WALES**
W2, TŶ WELLINGTON
STRYD WELLINGTON
CAERDYDD
CF11 9BE